CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 5ed o Ionawr 2016

Yn bresennol / Present: Cyng Euros Davies, Cyng Geraint Davies, Cyng Daniel Evans, Cyng Bill Green, Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Daff Davies, Cyng Alun James

Ymddiheiriadau/ Apologise: Cyng Helen Howells, Cyng Mary Thomas, Cyng Lewis Davies

Materion Personol/Personal Matters

Dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda I bawb. A Happy New Year was extended to everyone.

Estynwyd cydymdeimlad y Cyngor Cymuned i'r Cyng Helen Howells ar farwolaeth ei Mamgu. The Community Council extended their condolences to Cllr Helen Howells on the passing of her grandmother.

1	**Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests** Nid oedd neb yn datgelu buddiant personol. Nobody declared a personal interest.
2	**Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes** Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr yn gywir gan y Cyng. Bill Green ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Daff Davies. The December minutes were proposed as a true record by Cllr Bill Green and seconded by Cllr Daff Davies.
3. a.	**Materion yn Codi – Matters Arising** Cae Chwarae Caesarn Playing Field – Croesawyd Ifor Jones ac Ann Evendon i'r cyfarfod, aethpwyd trwy'r pwyntiau a godwyd yn y les ddrafft a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir. Penderfynwyd y byddai Ifor, Ann a Nia yn trefnu cyfarfod agored i drafod y materion ger bron, yn bennaf a oes diddordeb ehangach yn yr ardal i gadw'r cae chwarae a sut y byddant yn codi arian ar gyfer costau cynnal a chadw a chadw'r offer yn ddiogel neu'r angen i rhoi offer newydd yno. Penderfynwyd y byddant yn adrodd nôl i'r pwyllgor yng nghyfarfod mis Mawrth. Ifor Jones and Ann Evendon were welcomed to the meeting and the points raised in the draft lease received from the County Council were discussed. It was decided that Ifor, Ann and Nia would hold a public meeting to discuss the matters, in particular if there is a wider interest in keeping the playing field and how they would raise money for maintenance costs and keeping the equipment up to safety standards or the need to replace any equipment. It was agreed that they would feed back to the Community Council during the March meeting.
b.	Diwrnod ailgylchu eitemau trydanol bychain - Recycling small electrical items. Bydd hwn yn cael ei gynnal ar yr 16eg o Ionawr yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch. Bydd y Clerc yn ei hysbysebu. Gofynwyd i'r Cynghorwyr i fod yn bresenol rhywbryd yn ystod y dydd rhwng 10yb a 4yp. The day will be held on the 16th of

	January at Neuadd yr Hafod, Gorsgoch. The Clerk will advertise it. The Councillors were asked to be in attendance sometime during the day between 10am and 4pm.
4.	**Gohebiaeth**
a.	Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn Ceredigion 2016 Crime and Disorder Strategic Assessment 2016 – Llenwyd yr holidaur ai ddychwelyd. The questionnaire was filled and returned.
b.	Gwahoddiad i ddigwyddiad ymgysylltu trawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl. Invitation to attend a transformation of Mental Health Services Engagement Event - 19.1.2016 6yh-8yh Neuadd Goffa Aberaeron. Cynigwyd bod y Cadeirydd yn mynychu. It was proposed that the Chairman would attend.
5.	**Taliadau a Ceisiadau am Arian / Payments and Requests for Money**
a.	Bobath Cymru - £20.00 Cynnig/Proposed: Cllr Alun James Eilio/Seconded: Cllr Gwilym Jenkins.
b.	CFFI Ceredigion - £50.00 Cynnig/Proposed: Cllr Bill Green Eilio/Seconded: Cllr Daniel Evans
c.	Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau – Penderfynwyd peidio â chefnogi yn ariannol gan nad yw o fewn dalgylch lleol. It was decided not to contribute financially as it was not within the local area.
d.	Eisteddfod Capel y Groes - £50.00 Cynnig/Proposed: Cllr Bill Green Eilio/Seconded: Cllr Daff Davies
6.	**Cyfrifon**
a.	Adroddiad Cwarterol/Quarterly Report: Derbyniwyd yr adroddiad gan y Cyng Alun James ac Eiliwyd gan y Cyng Gwilym Jenkins. The Report was accepted by Cllr Alun James and seconded by Cllr Gwilym Jenkins.
7.	**Cynllunio / Planning**
a.	A150160 - Installation of a single wind turbine generator up to 36.6m in height, plus ancillary infrastructure - Caeronnen, Penffordd, Llanybydder – APPROVED
b.	A150837 – Proposed demolition of existing single storey utility and store and the erection of a new two storey extension and installation of solar panels. Cefnrhuddlan Isaf, Llanwenog. APPROVED
8.	**Unrhyw Fater Arall /Any other business**
a.	**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting** Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 2il o Chwefror am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. It was decided to hold the next meeting on the 2nd o February at 7.30pm at Drefach Village Hall.
b.	Codwyd bod dŵr yn cronu ger tro Cware Alltgoch oherwydd bod y drain wedi blocio. It was raised that water congregates on the bend by Alltgoch Quarry as the drain is blocked.

c.	Ciosgs a Barrier Drefach – Kiosks and Drefach Barrier – Atgoffwyd y Cyng Euros Davies a'r Cyng Geraint Hatcher bod angen gorffen y gwaith o roi'r byrddau fynu yn y ciosgs gan bod y Cyngor Cymuned wedi talu amdanynt, ac mae angen i'r Cyng Geraint Hatcher atgyweirio'r barrier tu allan i gae chwarae Drefach. Cllr Euros Davies was reminded that the work of erecting the boards in the kiosks needs to be completed as the Community Council have paid for the boards, and Cllr Geraint Hatcher needs to repair the barrier outside the playing field in Drefach.
d.	Cinio Blynyddol – Annual Dinner – Cynigwyd y Castle Green, Llanbedr Pont Steffan gan y Cyng Gwilym Jenkins ac Eiliwyd gan y Cyng Daniel Evans ar naill ai y 15fed neu'r 22ain o Ebrill. The Castel Green, Lampeter was proposed by Cllr Gwilym Jenkins and Seconded by Cllr Daniel Evans on either the 15th or 22nd of April.

Arwyddwyd:……..

Dyddiad:……